Helen Morgan Rees
Cyfarwyddwr Addysg
Dinas a Sir Abertawe
Yr Adran Addysg
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

24/02/2026

Annwyl Helen Morgan Rees

**Ymweliad Estynedig gan Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol: Chwefror 2026**

Ar 3-5 Chwefror 2026, cynhaliodd Mike Hayes AEF a thîm o ddau AEF ymweliad estynedig gan arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, a oedd yn canolbwyntio ar gymorth a her yn eich ysgolion uwchradd a sut rydych chi'n cefnogi ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliadau ac ysgolion.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â chi, eich uwch dîm a swyddogion perthnasol
- Cyfarfod ag ystod o benaethiaid
- Cyfarfod â swyddogion o Partneriaeth
- Cyfarfod ag aelodau o Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA)
- Craffu ar ddogfennau

Rydym yn gobeithio y bu'r ymweliad hwn yn fuddiol i chi a'ch tîm gwasanaethau addysg. Isod, ceir crynodeb o'n canfyddiadau.

**Maes ffocws 1: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi a herio'i ysgolion uwchradd i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr?**

Cryfderau:

Roedd yn ddefnyddiol trafod gweledigaeth strategol yr awdurdod lleol ar gyfer addysg yn Abertawe (Abertawe 2028) a sut cafodd ei chyd-greu yn fuddiol â phenaethiaid. Roedd hefyd yn glir fod y Cyfarwyddwr Addysg wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus ag arweinwyr ysgolion uwchradd dros gyfnod ac wedi cynyddu ei phresenoldeb mewn ysgolion. Mae arweinwyr yn y sector yn gwerthfawrogi ei mewnbwn i'r ddeialog am wella ysgolion. Maent yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn dweud wrthym fod sianelau cyfathrebu wedi cael eu cryfhau.

Roedd yn ddiddorol clywed am yr adolygiad cymheiriaid diweddar a gomisiynwyd i ystyried effeithiolrwydd y trefniadau gwella ysgolion, a sbardunwyd gan ddeilliannau arolygu diweddar. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod wedi ymateb i'r canfyddiadau trwy ddiwygio'r fframwaith gwella ysgolion uwchradd, gyda'r nod i gryfhau eu prosesau gwella ysgolion trwy ganolbwyntio'n agosach ar effaith eu gwaith. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu nifer yr ymgynghorwyr gwella ysgolion (YGY) a swyddogion cymorth cwricwlwm, a rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol gan ymgynghorwyr gwella ysgolion. Mae'r trefniadau hyn yn gymharol ddiweddar ac nid yw'r awdurdod lleol wedi gwerthuso effaith y newidiadau hyn eto.

Meysydd i'w hystyried:

Mae arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn ymwybodol bod angen iddynt gryfhau'r prosesau sydd ar waith i werthuso ansawdd ac effaith eu gwaith, er mwyn gwireddu'n llawn fanteision y newidiadau i'r fframwaith gwella ysgolion a'r buddsoddiad cynyddol mewn adnoddau.

I gefnogi hyn, rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i chi ystyried:

- Beth yw'r mecanweithiau mwyaf addas i werthuso effaith y newidiadau a wnaed ers yr adolygiad cymheiriaid?
- Pa mor effeithiol yw eich prosesau gwerthuso o ran eich galluogi i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu penodol ar draws y gwasanaeth gwella ysgolion?
- Sut gallwch chi gefnogi ymgynghorwyr gwella ysgolion a thimau cwricwlwm yn well i ddarparu her a chymorth cyson o ansawdd uchel i ysgolion?
- Sut gallwch chi gryfhau monitro ansawdd gwaith ymgynghorwyr gwella ysgolion a thimau cwricwlwm?

- Sut gallwch chi sicrhau bod ymgynghorwyr gwella ysgolion yn trefnu cymorth effeithiol gan y tîm cwricwlwm a Partneriaeth i dargedu meysydd sydd angen eu gwella fwyaf?

### Maes ffocws 2: **Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o'i leoliadau ac ysgolion?**

Cryfderau:

Yn ein sgyrsiau, roedd yn glir fod yr awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf a chynaledig i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Abertawe. Mae arweinyddiaeth strategol yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd ehangach o'r Gymraeg, a gefnogir gan waith partneriaeth effeithiol trwy Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA).

Gwnaeth yr awdurdod lleol ei ymrwymiad cryf yn glir i gynyddu capasiti darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy fuddsoddiad cyfalaf a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae wedi gwneud cynnydd o ran cynyddu capasiti yn gyffredinol trwy wneud gwelliannau i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg presennol. Mae swyddogion yn mesur y nifer sy'n derbyn lleoedd cyn y sector meithrin ac yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyflwyno darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol ac yn gynaliadwy. Amlinellodd swyddogion hefyd sut maent wedi sicrhau darpariaeth drochi a gwella iaith sy'n cefnogi cyfnod pontio disgyblion o addysg gynradd cyfrwng Saesneg.

Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym am ei gynnydd o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys buddsoddiad diweddar mewn cyfleusterau addysgu arbenigol, sy'n cynyddu dewis ar gyfer teuluoedd a dysgwyr.

Cawsom drafodaeth â swyddogion am y modd y maent yn darparu cymorth targedig i ysgolion sy'n derbyn argymhellion am wella'r Gymraeg yn eu harolygiad. Dywedon nhw wrthym fod bron pob un o'r ysgolion hyn wedi cryfhau eu darpariaeth ac maent yn nodi bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy ar draws eu hysgolion.

Roedd yn glir o drafodaethau fod swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn gweithio'n dda gyda'u partneriaid i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr a chymorth ymarferol i ysgolion i gryfhau darpariaeth Gymraeg. Dywedodd arweinwyr ysgolion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ansawdd y cymorth a gynigir.

Meysydd i’w hystyried:

I hwyluso mwy o welliant, rydym yn credu y byddai’n fuddiol i chi ystyried:

- Sut gallwch chi ddeall yn well y ffactorau sy’n dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd i ddechrau yn y sector cyfrwng Cymraeg, aros ynddo neu’i adael, o’r blynyddoedd cynnar trwodd i addysg gynradd, a pha mor effeithiol allwch chi ddefnyddio hyn i fynd i’r afael â rhwystrau a nodi ffactorau lliniarol i gynyddu’r niferoedd sy’n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg?

- Pa mor dda ydych chi’n cefnogi disgyblion sy’n dymuno trosglwyddo o addysg uwchradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg?

- I ba raddau ydych chi’n ymchwilio ac yn defnyddio cyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg a dwyieithrwydd trwy bartneriaethau â chyrsiau galwedigaethol a mentrau cyflogaeth yn y dyfodol, yn cynnwys prosiectau fel Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac Addewid Abertawe?

- Pa mor effeithiol ydych chi’n defnyddio data sydd ar gael, fel dangosfwrdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i nodi a mynd i’r afael yn rhagweithiol ag anghenion dysgu proffesiynol y gweithlu?

Diolch yn fawr am hwyluso’r ymweliad ac edrychaf ymlaen at drafod y datblygiadau yn y ddau faes ffocws gyda chi a’ch cydweithwyr yn fy ymweliadau cyswllt.

Yn gywir

*Mike*

**Mike Hayes AEF**